
# LLINELLAU CYFFURIAU

## Mae gangiau cyffuriau yn camfanteisio ar bobl ifanc bregus yng Ngogledd Cymru.

Drwy ddefnyddio trais a chamdriniaeth mae troseddwyr yn recriwtio pobl ifanc i weithredu fel negeswyr i symud cyffuriau ac arian o gwmpas maesdrefi neu gefn gwlad.




### 1 DEFNYDDIO'R FFÔN YN FWY AML

Gall person ifanc sy'n rhan o linellau cyffuriau fod yn defnyddio ei ffôn symudol yn ormodol, yn aml yn derbyn negeseuon ar adegau anarferol gan bobl anghyfarwydd. Gall rhain fod yn gyfarwyddiadau i gyflenwi cyffuriau mewn lleoliadau ar draws y wlad.

### 2 ANAFIADAU HEB ESBONIAD

Gall person sy'n cael ei gam-drin yn droseddol ddod adref ag anafiadau heb esboniad. Gall rhain fod yn sgil trais yn dilyn cyflenwi cyffuriau, neu yn sgil hunan-niwedio.

### 3 NEWID MEWN HWYL

Efallai y byddwch yn sylwi ar newid mewn hwyl neu les emosiynol. Wedi i berson ifanc ddechrau masnachu cyffuriau maent yn cael eu rheoli gan fygythiadau, trais a cham-drin rhywiol, gan eu gwneud yn ofnus ac yn dioddef trawma.

### 4 YMUNO MEWN GANG

Yn aml bydd person ifanc sy'n masnachu cyffuriau yn ymuno â gangiau neu yn gwneud ffrindiau newydd sy'n anghyfarwydd i chi. Gallant ddieithrio oddi wrth eu ffrindiau arferol a newid eu hymddangosiad.

### 5 NWYDDAU NEWYDD DRUD

Bydd troseddwyr yn aml yn paratoi person ifanc ar gyfer symud cyffuriau gydag addewid o arian, dillad a trainers drud, a chyfeillgarwch yn wobrau. Sylwch ar unrhyw eiddo neu arian nad oes eglurhad amdanynt.

### 6 AR GOLL O GARTRE

Gall person ifanc sy'n delio cyffuriau fod oddi cartref yn aml wrth iddynt deithio ar draws y wlad yn cyflenwi cyffuriau. Byddant yn aros allan yn hwyr heb ganiatâd heb ddatgelu ble maent wedi bod.

### 7 CYNNYDD MEWN YMDDYGIAD GWRTH-GYMDEITHASOL

Bydd person ifanc sy'n dioddef cam-fanteisio yn ymddwyn yn wrthgymdeithasol yn y cartre, neu gall fod yn dreisgar. Gall hefyd ddangos diffyg parch at reolau wedi eu gosod gan rhieni, gofalwyr neu athrawon.

### 8 GWAITH YSGOL YN DIRWYWIO

Gall person ifanc sy'n cael ei gam-drin yn droseddol ddechrau dioddef yn yr ysgol a chael graddau is. Gall hyn fod yn sgil bod yn absennol heb esboniad neu methu canolbwyntio ar ei waith.

### 9 DYLED CYFFURIAU

Gall rhai sy'n camfanteisio ar bobl ifanc rhoi cyffuriau am ddim er mwyn iddynt ddod yn gaaeth. Drwy wneud hyn bydd y troseddwyr yn gallu rheoli'r person ifanc drwy eu caethiwed a'u dyled cyffuriau.

### 10 TROSEDDAU CYLLYLL

Yn aml bydd person ifanc sy'n rhan o gang llinellau cyffuriau yn cario arf (cyllell fel arfer) i'w diogelu. Mae ystadegau'n dangos eich bod yn fwy tebygol o gael eich anafu os byddwch yn cario cyllell.



83934

HEDDLU GOGLEDD CYMRU
NORTH WALES POLICE

Os ydych yn amau bod llinellau cyffuriau yn gweithredu yn eich ardal, galwch 101 neu galwch CRIMESTOPPERS yn ddi-enw ar 0800 555 111.

gwneud Gogledd Cymru y lle **mwyaf diogel** yn y DU